PARTNERIAETH WLEDIG MÔN - COFNODION

Cyfarfod *Meeting*	Partneriaeth Wledig Môn		
Lle *Venue*	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad *Date*	02/03/2016	Amser *Time*	4.00 pm

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr y Sector Menter:		
Mari Faulkener	(MF)	
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Dewi Jones	(DJ)	Partneriaeth Llangefni
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Môn
Mark Gahan	(MG)	
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Aled Davies	(AD)	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Trefor Jones	(TJ)	Prifysgol Bangor
Molly Lovatt	(ML)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JaD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Elfyn Roberts	(ER)	
Staff Cyngor Ynys Môn		
Eifion Lloyd Jones	(ELJ)	
Staff Llywodraeth Cymru		
John Davies	(JoD)	

Pwynt	Manylion	Cam Gweithredu
1	Cafodd yr aelodau eu croesawu i'r cyfarfod gan Martin Jardine, y cadeirydd. Cyflwynodd pob aelod o amgylch y bwrdd ei hun yn ei dro i'r aelodau eraill.	
2	Cafwyd **ymddiheuriadau** gan yr aelodau a ganlyn: Dr Dylan Evans Non Hughes	

	Bryn Jones Dafydd Roberts Heidi Williams	
3	**Datgan Buddiannau** • Datganodd EJ ac AD fuddiant yn y ceisiadau i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ar gyfer Tref Beicio Llangefni a Llwybrau Beicio Adar Ynys Môn a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, a gwnaethant adael yr ystafell tra bo'r eitem honno'n cael ei thrafod. • Datganodd MF ei bod yn aelod o grŵp bwyd Gorau Môn ond na fu'n rhan o'r gwaith o lunio'r cynnig. Penderfynwyd na fyddai hynny'n effeithio ar ei gallu i gymryd rhan mewn trafodaethau am y cynnig.	
4	**Cofnodion y Cyfarfod – 07/12/15** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod yn gywir. Cynigiwyd gan : Dewi Jones, Eiliwyd gan : Mark Gahan	
5	**Materion sy'n Codi** 2.3 Nid oedd dim enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd wedi dod i law 2.8 Roedd y mater hwn wedi'i gynnwys ar yr agenda. 2.10 Ychydig o ymatebion ynghylch amser cyfarfodydd a oedd wedi dod i law. Roedd adeg hwyr yn y prynhawn i'w gweld i fod yn eithaf hwylus, a chytunwyd anelu at ddechrau am 3:30	
6	**Newidiadau i'r Cynllun Rheoli** Amlinellodd EJ y rhesymau dros adolygu'r Cynllun Rheoli gan nodi, yn ychwanegol at fod yn amod gan Lywodraeth Cymru, fod angen i'r Cynllun Rheoli gael ei ddiwygio i adlewyrchu gwaith y Grwpiau Thematig o lunio cynigion prosiectau i'w cymeradwyo gan y Bartneriaeth. Aeth DG yn ei flaen i egluro'r diagramau llif yn fwy manwl. **Cytunwyd ar y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Rheoli.**	
7	**Adolygu'r Aelodaeth** Mae'n amod gan Lywodraeth Cymru fod aelodaeth y Bartneriaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Er mwyn helpu i sicrhau bod cworwm mewn cyfarfodydd, cynigiwyd y dylid cynyddu aelodaeth y Bartneriaeth i 21 – hynny yw, saith o bob sector, ond mai 18 ddylai fod y garfan bleidleisio o hyd. Byddai aelodau ychwanegol yn cael eu recriwtio drwy gyfrwng hysbyseb yn y wasg. Awgrymwyd y dylai'r hysbyseb ofyn am arbenigaeth / diddordeb mewn technoleg ddigidol. **Cytunwyd ar y cynnig i gynyddu niferoedd y Bartneriaeth i 21**	**Hysbyseb i gael ei gosod yn y wasg leol i recriwtio aelodau ychwanegol**
8	**Ceisiadau i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig** Roedd y Bartneriaeth wedi cael cais i adolygu'r ceisiadau a chyflwyno sylwadau ynghylch a oeddent yn cydweddu â'r Strategaeth Datblygu Lleol gymeradwy. Tref Beicio Llangefni – **IE** – Gellid ei ymestyn i ardaloedd eraill. Llwybrau Beicio Adar Ynys Môn – **IE** – Sioe Môn – **IE** – Dim sylwadau	
9	**Rôl Llywodraeth Cymru**	

	Eglurodd John Davies fod Datblygiad Lleol sy'n cael ei Arwain gan y Gymuned yn y Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnwys LEADER, FLAG (Pysgodfeydd), Cydweithredu a'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys cynorthwyo'r 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol gyda materion fel cydymffurfio â'u Cylch Gorchwyl, cynlluniau rheoli a Strategaethau Cyflawni Lleol. Byddai'n ceisio mynd i gynifer o gyfarfodydd Grwpiau Gweithredu Lleol ag y bo modd a rhannu arferion da. Gyda chaniatâd y Grŵp Gweithredu Lleol, roedd yn dymuno rhannu'r templed ar gyfer cofnodi Datganiadau o Fuddiannau â phartneriaethau eraill. Soniodd am lansiad y Rhaglen Datblygu Gwledig yn Abertawe y mis diwethaf gan nodi bod y cyfnodau ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb o dan pump o gynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cychwyn eisoes ac y byddai un arall yn cychwyn ym mis Mawrth. Roedd rhagor o fanylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy	
10	**Cynigion ynghylch Prosiectau** a) 5k o Gyllid ar gyfer cymorth arbenigol i ddatblygu prosiectau. Roedd y cynnig hwn wedi'i drafod yng nghyfarfod blaenorol y Grŵp Gweithredu Lleol, ond ni phenderfynwyd arno. Nodwyd mai prosiect £25,000 oedd hwn i bob pwrpas (5 thema â £5K) **Penderfynwyd y dylai'r cynnig gael ei gefnogi.** b) MônSAR – cynnig i dreialu gwasanaeth chwilio ac achub ar yr iseldir ar Ynys Môn i fod yn rhan o'r gwaith o chwilio am bobl sy'n agored i niwed e.e. y rhai sydd â chlefyd Alzheimer neu broblemau iechyd meddwl. **Penderfynwyd y dylai'r cynnig gael ei gefnogi.** c) Brandio a marchnata'r grŵp bwyd - edrych ar gryfhau brand bwyd Ynys Môn. **Penderfynwyd y dylai'r cynnig gael ei gefnogi.** d) Cynefin – Cynnig i ddatblygu amrywiad ar Energy Local gan anelu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd, a lleihau CO2 mewn cartrefi yn ne-orllewin Ynys Môn nad ydynt yn cael nwy. **Penderfynwyd y dylai'r cynnig gael ei gefnogi.** e) Age Well – Cynnig a ddatblygwyd gydag Age Well a rhanddeiliaid eraill i dreialu proses o ymgysylltu â phobl dros 50 oed sy'n gaeth i'r tŷ er mwyn iddynt fynd i'r afael â defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer pethau fel siopa ar-lein / anfon negeseuon Skype, ac yn y blaen. **Penderfynwyd y dylai'r cynnig gael ei gefnogi.** **Prosiect Cydweithredu** f) Ymweliad â Fferm Shinagh – prosiect i ffermwyr llaeth ifanc ymweld â fferm ymchwil gan edrych ar system Seland Newydd o gynhyrchu Llaeth. Gan fod y fferm wedi'i lleoli yn Ne Iwerddon, ni ellid ei ariannu gan agweddau eraill ar y Rhaglen Datblygu Gwledig. Byddai'n cynnwys un cyfranogwr o Ynys Môn. **Penderfynwyd y dylai'r cynnig gael ei gefnogi.**	

11	**Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf** Nododd nifer o aelodau a swyddogion na fyddent ar gael ar 20 Ebrill a gwnaethant awgrymu y dylai'r Corff Arweiniol drefnu dyddiad arall.	**Trefnu dyddiad arall ar gyfer cyfarfod mis Ebrill**
12	**Diwedd**	

Cyfarfod *Meeting*	Partneriaeth Gwledig Môn		
Lle *Venue*	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad *Date*	02/03/2016	Amser *Time*	4.00 pm

Present:

Enterprise Sector Representatives:		
Mari Faulkener	(MF)	
Voluntary/Community Sector Representatives		
Dewi Jones	(DJ)	Partneriaeth Llangefni
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Môn
Mark Gahan	(MG)	
Public Sector Representatives		
Martin Jardine	(MJ)	Llandrillo Menai Group (Chair)
Aled Davies	(AD)	Isle of Anglesey County Council
Dr Trefor Jones	(TJ)	Prifysgol Bangor
Molly Lovatt	(ML)	Natural Resources Wales
Menter Môn Staff		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JaD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Elfyn Roberts	(ER)	
Anglesey Council Staff		
Eifion Lloyd Jones	(ELJ)	
Welsh Government Staff		
John Davies	(JoD)	

Point	Details	Action
1	Members were welcomed to the meeting by the chair, Martin Jardine. Members went around the table to introduce themselves to the other members.	
2	**Apologies** were received from the following members. Dr Dylan Evans	

	Non Hughes Bryn Jones Dafydd Roberts Heidi Williams	
3	**Declaration of Interest.** • EJ and AD declared an interest in the Llangefni Cycle Friendly Town and Anglesey Bird Cycle Routes RCDF applications submitted by IACC and left the room whilst that item was discussed. • MF declared that she was a member of the food group Gorau Môn but had not been party to the preparation of the proposal. It was decided that would not affect her ability to take part in discussions on the proposal.	
4	**Minutes of Meeting – 07/12/15** The minutes of the meeting were accepted as being correct. Proposed by : Dewi Jones, Seconded by : Mark Gahan	
5	**Matters Arising** 2.3 No nominations for Vice Chair had been received 2.8 This matter was included on the agenda. 2.10 Few responses on time of meetings had been received. Late afternoon seemed to be fairly convenient and it was agreed to aim for a start time of 3:30	
6	**Changes to the Control Plan** EJ outlined the reasons for reviewing the Control Plan noting that in addition to it being a Welsh Government stipulation, the Control Plan needed to be revised to reflect the Thematic Groups' involvement in shaping project proposals for approval by the Partnership. DG went on to explain the flow diagrams in more detail. **The proposed changes to the Control Plan were agreed.**	
7	**Membership Review** It is a Welsh Government stipulation that Partnership membership be reviewed annually. To help ensure a quorum at meetings, it was proposed that Partnership membership be increased to 21 – i.e. seven from each sector, but that the voting cohort remains at 18. Additional members would be recruited by means of an advert in the press. It was suggested that the advert asked for specialisation / interest in digital technology. **The proposal to increase Partnership numbers to 21 was agreed**	**Advert to be placed in the local press to recruit additional members.**
8	**Rural Community Development Fund Applications** The Partnership had been requested to review the applications and comment on whether or not they fitted with the approved Local Development Strategy. Llangefni Cycle Friendly Town – **YES** – Could be extended to other areas. Anglesey Bird Cycle Routes – **YES** – Anglesey Show – **YES** – No Comment	
9	**Welsh Government Role** John Davies explained that Community Led Local Development within the Rural Development Plan involved LEADER, FLAG (Fisheries), Co – Operation and the Rural Community Development Fund.	

	His responsibilities involve supporting the 18 Local Action Groups with e.g. compliance with their Terms of Reference, control plans and Local Delivery Strategies. He would try and attend as many LAG meetings as possible and share good practice. With the LAG's permission, he wished to share the template to record Declarations of Interests with other partnerships. He mentioned the launch of the RDP in Swansea the previous month noting that windows for submitting EoIs under 5 RDP schemes had already opened and a further one would open in March. More details could be found on the WG website at http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?lang=en	
10	**Project Proposals** g) 5k Funding for specialist support for project development. This proposal had been discussed at the previous LAG meeting, but had not been decided upon. It was noted that this was effectively a £25,000 project (5 themes @ £5K) **It was resolved that the proposal be supported.** h) MônSAR – a proposal to trial a lowland search and rescue service on Anglesey to be involved in the search for vulnerable people e.g. those with Alzheimer's or mental health issues. **It was resolved that the proposal be supported.** i) Branding and marketing the food group - to look at strengthening the brand for Anglesey food. **It was resolved that the proposal be supported.** j) Cynefin – A proposal to develop a variation of Energy Local aiming to address fuel poverty, and reduce CO2 in off gas homes in south west Anglesey. **It was resolved that the proposal be supported.** k) Age Well – A proposal developed with Age Well and other stakeholders to trial the engagement of housebound people over 50 to embrace the use of digital technology for e.g online shopping / skyping etc. **It was resolved that the proposal be supported.** **Co-operation Project** l) Shinagh Farm Visit – a project for young dairy farmers to visit a research farm looking at the New Zealand system of Dairy production. Because the farm was located in Southern Ireland it could not be funded by other aspects of the RDP. It would involve one participant from Anglesey. **It was resolved that the proposal be supported.**	
11	**Date of Next Meetings** A number of members and officers indicated that they would not be available on the 20th April and suggested that the Lead Body arrange an alternative date.	**Arrange alternative date for April meeting**
12	**Close**	